Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 30 Awst 2019
Members' e-briefing 30 August 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr o weithwyr cyswllt. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogiad. Cysylltwch â lynne.hill@childreninwales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Hyfforddiant a digwyddiadau

11.09.2019	"Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant	Conwy
12.09.2019	Deall Awtistiaeth a sut y gall effeithio ar y plentyn a'i ofalwyr	Caerdydd
19.09.2019	LHDT a Datblygiad Plant	Conwy
25.09.2019	Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer	Caerdydd

02.10.2019	"Cadw Ein Plany Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant	Caerdydd
03.10.2019	ACE - Adeiladu Gwydnwch yn wyneb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	Abertawe

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Digwyddiad i ddathlu 30 mlynedd o Gonfenswin y CCUHP yng Nghymru

Bydd 20 Tachwedd 2019 yn nodi 30 mlynedd ers creu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y digwyddiad hwn yn cydnabod taith CCUHP yng Nghymru hyd yma, yn ogystal ag edrych ar yr hyn sydd angen ei gyflawni yn y dyfodol.

Bydd y rhaglen yn cynnwys

- Pobl ifanc
- Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru
- Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Siaradwr rhyngwladol (i'w gadarnhau)
- a llawer mwy

Digwyddiad di-dâl yw hwn; rhagor o fanylion i ddilyn.

Merched yn y DU yn poeni am yr amgylchedd, mynediad i fannau awyr agored, bywydau hapusach ar-lein a bwlio ar-lein

Yn ôl Arolwg o Agweddau Merched gan Girlguiding UK, mae merched a menywod ifanc rhwng 7 ac 21 oed yn poeni am yr amgylchedd, mynediad i fannau awyr agored, bywydau hapusach ar-lein, bwlio ar-lein a chymorth am arholiadau ysgol.

Holodd yr arolwg 2,000 o ferched a menywod ifanc ledled y DU am eu hagweddau ar amrywiaeth o faterion - gweithredu amgylcheddol, mynediad i gyfleoedd chwarae a chwaraeon, bywyd ar-lein a'r cyfryngau, bwlio a chyfeillgarwch, sgiliau ac addysg.

Dywedodd cyfran anferth o fenywod ifanc eu bod yn teimlo mai mater brys oedd yr angen i ni i gyd wneud mwy i amddiffyn yr amgylchedd - 88%. Dywedodd 79% eu bod wedi dioddef bwlio neu ymddygiad annerbyniol ar-lein. Roedd ymddygiad annerbyniol yn cynnwys ymddygiad rheoli gan bartner.

Dyma'r degfed Arolwg o Agweddau Merched, a ddechreuwyd yn 2009. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yn ogystal ag adroddiadau arolygon blaenorol ar wefan Girlguiding.

Pigion: canlyniadau TGAU yng Nghymru

Mae blog gwasanaeth ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pigion, wedi cyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau TGAU yng Nghymru.

Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi ar 21 Awst 2019 a'u cyhoeddi wedyn ar ffurf gryno gan y Cyd-gyngor Cymwysterau.

Yna dadansoddodd y gwasanaeth ymchwil y canlyniadau er mwyn ateb rhai cwestiynau am ganlyniadau eleni.

Roedd cynnydd o 4.5% yn nifer y myfyrwyr a ymgeisiodd am TGAU ar ôl gostyngiad o 13% yn 2018. Mae'r dadansoddiad yn nodi bod anhawster wrth gymharu canlyniadau Cymru a Lloegr, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r dull o raddio canlyniadau yn Lloegr.

Mae'r erthygl hefyd yn cymharu canlyniadau eleni â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol, gan nodi bod cynnydd yng nghanran y disgyblion a enillodd A*-C rhwng 2018 a 2019. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth ymchwil yn rhybuddio darllenwyr y dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng blynyddoedd tra bod cymwysterau'n cael eu diwygio.

Gallwch ddarllen yr erthygl lawn ar wefan Pigion.

Angen miloedd yn fwy o weithwyr gofal yng nghymru erbyn 2030

Bydd angen miloedd yn fwy o bobl i weithio mewn rolau gofalu gydag oedolion a phlant yng Nghymru erbyn 2030 er mwyn bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau gofal a darparu cymorth i gymunedau ledled y wlad.

Wrth i fwy o bobl yng Nghymru fyw'n hirach, bydd gan fwy anghenion penodol a bydd angen cymorth arnynt yn eu cartrefi a'r tu allan iddynt. Mae rhagolygon yn nodi y bydd angen o gwmpas 20,000 yn fwy o weithwyr dros y 10 mlynedd nesaf i ateb galw cynyddol y boblogaeth.

Ar hyn o bryd, mae tua un o bob 17 oedolyn yng Nghymru yn gweithio mewn gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant (tua 113,000 o bobl), sy'n golygu bod

y maes yn gyflogwr mwy na'r GIG. Ond mae'r maes gwaith hwn yn tyfu o hyd.

Nod yr ymgyrch Gofalwn yw tynnu sylw at yr amrywiaeth o rolau a chyfleoedd datblygu gyrfa sydd ar gael. Drwy ddefnyddio gweithwyr gofal go iawn, mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar yr heriau y maent yn eu hwynebu, ynghyd â'r hyn sy'n gwneud eu gwaith yn werth chweil.

Mae Amanda Calloway wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant ers 12 mlynedd. Meddai: "Ro'n i'n arfer gweithio mewn bancio, ac roedd fy rôl yn achosi tipyn o straen, ond ar ôl cael fy mhlant penderfynais fod yn warchodwr plant dros dro.

"Ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, dwi yma o hyd. Mae wedi fy ngalluogi i astudio ochr yn ochr â rhedeg fy musnes oherwydd dwi'n gweithio o gartref ac mae'n ddigon hyblyg i ffitio o gwmpas fy mywyd.

"Dwi'n mwynhau rhedeg a bod yn yr awyr agored, felly dwi'n mynd â'r plant i'r warchodfa natur, i'r goedwig neu i'r traeth gymaint â phosibl. Mae'n yrfa werth chweil, er ei bod yn waith caled hefyd. Mae'n wych cael y cyfle i siapio dyfodol bywydau plant."

I gael rhagor o wybodaeth am y rolau sydd ar gael a chyflogwyr lleol yn y sectorau gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, ewch i Gofalwn.cymru. Bydd y wefan yn cael ei ddiweddaru'n gyson gyda mwy o fanylion a gwybodaeth ddefnyddiol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Secondiad Arweinydd yr Adolygiad Tlodi Plant

Mae Llywodraeth Cymru yn hysbysebu ar hyn o bryd am secondiad ar gyfer Arweinydd yr Adolygiad Tlodi Plant. Gallwch ddarllen rhagor oddi wrth Lywodraeth Cymru isod:

Dyddiad Cau: 09.09.2019
Rhanbarth: Cymru gyfan
Math o gontract: Secondiad - 6 mis ar secondiad gydag estyniad posib o 6 mis.
Cylfog: Band Gweithredol 2 - £48,650 - £58,185

Bydd deiliad y swydd yn bwrw ymlaen ag ymrwymiad Prif Weinidog Cymru i aildrefnu'r rhaglenni cyllid cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi. Mae nifer o fentrau eisoes yn eu lle ar draws Llywodraeth Cymru sy'n helpu i roi mwy o arian ym mhocedi pobl. Gyda phob rhagolwg tymor canolig a hirdymor yn rhagweld cynnydd mewn tlodi plant ar draws Cymru yn sgil diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU, a'r ffaith y bydd effeithiau economaidd Brexit yn cael mwy o effaith ar bobl agored i niwed, mae angen i ni sicrhau bod y cyllid sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru ar liniaru tlodi yn cael yr effaith fwyaf bosibl nawr. Mae angen canolbwyntio'n fwy strategol ar leihau tlodi drwy ailgyfeirio adnoddau a hybu incymau. Bydd deiliad y swydd yn cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar draws ystod eang o sefydliadau, a hefyd ag arbenigwyr, i ystyried y dystiolaeth a'r arferion cyfredol gan ddatblygu polisi trawslywodraethol diwygiedig a llywio'r gweithredu ar dlodi plant.

I wneud cais, ewch i https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-1/brand-2/xf-358066a77476/candidate/so/pm/1/pl/6/opp/6191-Child-Poverty-Review-Lead/en-GB

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

Children in Wales
Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales would like to hear from anyone with experience of working with young people who would be interested in joining our list of associated. We would particularly like to hear from Welsh speakers interested in participation work. Please contact lynne.hill@childreninwales.org.uk for more information.

Training and events

11.09.2019	"Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Person for Child Protection	Conwy
12.09.2019	Understanding Autism and how it can impact on the child and their carers	Cardiff
19.09.2019	LGBT & Child Development	Conwy
25.09.2019	Supervision: A Model for Practice	Cardiff
02.10.2019	"Keeping Our Children Safe" Training for Designated Person for Child Protection	Cardiff
03.10.2019	ACE- Building Resilience in the Face of Adverse Childhood Experiences	Swansea

The full [training] and [events] schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click [here for more information] about our members' events and training.

An event to celebrate 30 years of the UNCRC in Wales

November 20th 2019 will signify the 30th year since the UN Convention on the Rights of the Child was created. This event will recognise the journey that the UNCRC has been on in Wales to date, as well as looking what needs to be achieved in the future.

Programme will include

- Young people
- Mark Drakeford AM, First Minister of Wales
- Julie Morgan AM, Deputy Minister for Health and Social Services
- Sally Holland, Children's Commissioner for Wales
- International speaker (tbc)
- and many more.

This event is free of charge; more details to follow.

Girls in the UK are worried about the environment, access to outdoor spaces, happier online lives and online bullying

According to Girls' Attitudes Survey by Girlguiding UK, girls and young women from 7 to 21 are concerned about the environment, access to outdoor spaces, happier online lives, online bullying and school exam support.

The survey asked 2,000 girls and young women across the UK for their attitudes on a variety of issues - environmental action, access to play and sport, life online and the media, bullying and friendships, skills and education.

An enormous proportion of young women said that they felt it was urgent that we all do more to protect the environment - 88%. 79% said that they had experienced bullying or unacceptable behaviour online. Unacceptable behaviour included controlling behaviour from a partner.

This is the tenth Girls' Attitudes Survey since its inception in 2009. You can find the full report as well as previous copies on the Girlguiding website.

In Brief: GCSE results in Wales

The National Assembly for Wales research service blog, In Brief, has published an overview

of the GSCE results for Wales.

The results came out on the 21 August 2019 and were subsequently published in summary by the Join Council for Qualifications.

The research service then analysed the results to answer some questions about the results for this year.

There was an increase of 4.5% in the number of students being entered for GCSEs after a 13% decrease in 2018. The analysis notes that there's difficulty comparing Wales and England's results, due to the changes made to the way that results are graded in England.

The article also compares this year's results with previous years' results, noting that there was an increase in the percentage of pupils achieving A*-C between 2018 and 2019. However, the research service warns readers that direct comparisons between years whilst qualifications are being reformed should be treated cautiously.

You can read the full article on the In Brief website.

Thousands more care workers needed in wales by 2030

Wales will need thousands more people to work in caring roles with adults and children by 2030 if it is to keep pace with the growing demand for care services and provide support for communities across the country.

As more people in Wales live longer, more will have specific needs that require support inside and outside the home. Projections indicate that around 20,000 more employees will be needed over the next 10 years to answer the growing demands of the population.

Currently, around one in 17 adults in Wales works in social care or early years and childcare (around 113,000 people), making it a bigger employer than the NHS. But this area of work is still growing.

The WeCare campaign aims to show the variety of roles and career progression opportunities available. By using real care workers, the campaign focuses on the challenges they face, as well as what makes their work rewarding and worthwhile.

Amanda Calloway has been working as a childminder for 12 years. She says: "I used to work in banking, in quite a stressful role, but after having my children, I decided to look into childminding temporarily.

"Twelve years later I'm still at it. It's allowed me to access education alongside running my business and as I work from home, it's flexible enough to fit around my life.

"I enjoy running and being outdoors, so I take the children to the nature reserve, the woods or the beach as much as possible. It's a rewarding career, even though it's hard work. To have the opportunity to shape the future of children's lives is fantastic."

For more information about some of the roles available and to see examples of real people who work in Wales and those they support, visit WeCare.wales. This website will be updated frequently, with further details and useful information.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Child Poverty Review Lead Secondment

The Welsh Government is currently advertising for a secondment for the Child Poverty Review Lead. You can read more from the Welsh Government below:

Closing Date: 09.09.2019
Region: Pan Wales
Type of contract: Secondment - 6 months with a possible 6 months extension
Salary: Executive Band 2 - £48,650 - £58,185

The post holder will drive forward the First Minister's commitment to re-engineer existing funding programmes to ensure that they have the maximum impact on the lives of children living in poverty. A number of initiatives are already in place across Welsh Government that contribute to putting more money into people's pockets. With all medium to long term forecasts predicting the rise of child poverty across Wales due to the UK Government's tax and welfare reforms, and the fact that the economic impacts of Brexit will have greater impact on vulnerable people, we need to ensure that Welsh Government funding spent on poverty mitigation has the maximum impact in the here and now. There is a need to focus more strategically on reducing poverty by redirection of resources and boosting incomes. The post holder will work collaboratively with internal and external stakeholders across a wide range of organisations, and experts, to consider the current evidence and practice leading to the development of refreshed cross government policy and informing delivery in relation to child poverty.

To apply, please visit https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-1/brand-2/candidate/so/pm/1/pl/6/opp/6191-Child-Poverty-Review-Lead/en-GB

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive**,** click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.